

Swyddog Ymchwilio Pecyn Recriwtio

Dyddiad Cau: Hanner dydd, 05 Medi 2022

Cynnwys

Cyflwyniad

Ynglŷn â'r Ombwdsmon

Gwerthoedd yr OGCC

Ynglŷn â'r rôl

Diben y rôl

Gofynion

Sut i Ymgeisio

Ymgeisio am y rôl

Canllawiau ynglŷn â sut i ymgeisio

Cyflwyno eich cais

Y Broses Recriwtio a Dethol

Diogelu Data

Hysbysiad Preifatrwydd

Cyflwyniad

Diolch am eich diddordeb yn y rôl: **Swyddog Ymchwilio** yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Nod ein proses recriwtio yw denu ymgeiswyr o safon ac, yn fwy na dim, recriwtio'r bobl orau.

Mae'r Pecyn Recriwtio hwn yn cynnwys gwybodaeth am OGCC, y broses recriwtio a sut i ymgeisio am y swydd.

Ewch i'n gwefan www.ombwdsmon.cymru am ragor o wybodaeth am y swyddfa.

Ynglŷn â'r Ombwdsmon

Ynglŷn â'r Ombwdsmon

Mae gan yr Ombwdsmon dair rôl benodol. Y cyntaf yw ystyried cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; yr ail yw ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri'r cod ymddygiad; y trydydd yw pennu safonau ymdrin â chwynion ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar holl gyrff y Llywodraeth ac mae'r gwasanaeth a ddarperir yn rhad ac am ddim. Isod ceir rhagor o wybodaeth am waith y Swyddfa.

Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus

O dan y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, mae'r Ombwdsmon yn ystyried cwynion am gyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, lle mae'r cyfrifoldeb am eu darparu wedi'i ddatganoli i Gymru. Hefyd, gall yr Ombwdsmon gychwyn Ymchwilio ar ei liwt ei hun pan fydd o'r farn bod amheuaeth resymol o gamweinyddu systemig sy'n achosi anghyfiawnder personol.

Cwynion Y Cod Ymddygiad

O dan ddarpariaethau Rhan III y Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ynghyd â Gorchmynion perthnasol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf honno, rwy'n ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri Cod Ymddygiad eu hawdurdod.

Safonau Cwynion

O dan y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, gall yr Ombwdsmon bennu safonau ar gyfer ymdrin â chwynion i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, cyhoeddi data ar gwynion a chefnogi ymdriniaeth dda â chwynion drwy gynnig hyfforddiant.

EIN GWERTHOEDD



Gwerthoedd yr OGCC

Mae OGCC yn credu bod diwylliant yn effeithio ar bob agwedd ar y ffordd rydym yn gweithredu a sut mae gwaith yn cael ei wneud. Rydym yn ymddiried yn ymdeimlad y gweithwyr o bwrpas ynghyd â'r set o werthoedd sy'n llywio ein diwylliant. Nod ein gwerthoedd yw rhoi templed ar gyfer yr ymddygiadau a'r safonau sy'n ddisgwyliedig gan y rhai sy'n gweithio i ni. Maent yn amlinellu'r ffordd rydym yn gwneud pethau yma.

- C** **Cyflawni:**
Gwneud ein gorau glas
- U** **Undod:**
Parchu ein gilydd a gweithio ar y cyd er mwyn i'r sefydliad lwyddo
- M** **Meddwl yn gadarnhaol:**
Dangos brwdfrydedd a balchder o ran pw ydyn ni a'r hyn rydyn ni'n ei wneud
- C** **Cefnogaeth:**
Bod yn gefn i'n gilydd a gwerthfawrogi ein hamrywiaeth
- P** **Perchenogaeth:**
Derbyn cyfrifoldeb am bopeth a wnawn
- P** **Parodrwydd:**
Bod yn awyddus, yn hyblyg ac yn rhagweithiol.

Cyflogwr Chwarae Teg



Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymdrechu i sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio ei wasanaeth, a'r rhai sy'n cael eu cyflogi ganddo, yn cael eu trin yn gyfartal. Yn ogystal, nid yw'r Ombwdsmon yn gwahaniaethu drwy amryfusedd yn erbyn aelodau o unrhyw grŵp penodol o gymdeithas.

Rydym yn ymroddedig i'r cynllun Hyderus o ran Anabledd. Drwy hynny, rydym wedi cofrestru i'r canlynol:

- ☐ recriwtio cynhwysol a hygyrch
- ☐ cyfathrebu swyddi gwag
- ☐ cynnig cyfweliad i bobl anabl
- ☐ cynnig addasiadau rhesymol
- ☐ cefnogi gweithwyr presennol

Rydym wedi cyflawni achrediad Arian Cyflogwr Chwarae Teg o dan gynllun Cyflogwr Chwarae Teg.

Buddion

- Cyflog cystadleuol
- Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil
- Cynllun Oriau Hyblyg
- Aelodaeth Gampfa
- Cynllun Beicio i'r Gwaith
- Health Cash Plan
- Cynllun prynu am bris gostyngol
- 32 diwrnod o wyliau blynyddol ynghyd â gwyliau banc (pro rata ar gyfer gweithwyr rhan amser)
- Cyfleusterau ar y safle ardderchog ac offer ar gyfer gweithio gartref
- Cwnsela allanol rhad ac am ddim a chefnogaeth iechyd galwedigaethol

Ynglŷn â'r rôl

Disgrifiad Swydd

	Tîm	Tetil y Swydd
Rôl:	Ymchwilio	Swyddog Ymchwilio
Gradd Cyflog:	OGCC Gradd [INV8-12]	
Cyflog:	£33,486-£44,625	
Yn adrodd i:	Rheolwr Ymchwilio	
Math o Gontract:	Parhaol - 37 awr yr wythnos (Efallai y bydd oriau hyblyg, rhannu swydd a gweithio rhan-amser ar gael)	
Gwyliau Blynnyddol:	32 diwrnod y flwyddyn, ynghyd â gwyliau cyhoeddus	
Cynllun Pensiwn:	Cynllun pensiwn y gwasanaeth sifil	
Lleoliad:		
Gofynion Cymraeg:	Cymraeg yn ddymunol	

Diben y rôl

Darparu gwasanaeth effeithlon, moesgar, addysgiadol ac atebol i aelodau'r cyhoedd sy'n cysylltu â'r Ombwdsmon, yn ogystal ag asesu ac ymchwilio i gwynion a wneir i'r Ombwdsmon.

Cyfrifoldebau

-
- ❑ Asesu, penderfynu ac ymchwilio i gwynion a wneir i'r Ombwdsmon yn unol â'r gweithdrefnau a'r safonau gweithredol a bennir gan yr Ombwdsmon ac o fewn yr awdurdod a ddirprwywyd gan yr Ombwdsmon.
 - ❑ Ymdrechu, lle bo'n briodol, i ddatrys cwynion yn anffurfiol a chyflym, neu ymchwilio i'r cwynion hyn yn ôl yr angen.
 - ❑ Trafod a sicrhau setliadau lleol gyda chanlyniadau priodol.
 - ❑ Dod i gasgliadau, cynnig canfyddiadau ac argymhellion i'r Ombwdsmon yn ystod ymchwiliadau llawn, wrth weithredu o fewn awdurdod dirprwyedig yr Ombwdsmon mewn modd amserol.
 - ❑ Drafftio a chyhoeddi llythyrau penderfynu, llythyrau ac adroddiadau datrys perthnasol yn unol â gweithdrefnau gweithredol yr Ombwdsmon.
 - ❑ Sicrhau, fel bo'n briodol, y caiff cydymffurfiaeth ag argymhellion a wneir i awdurdodau rhestredig eu monitro a'u gwerthuso
 - ❑ Rhoi cyngor ac arweiniad, yn ôl yr angen, i aelodau'r cyhoedd neu gynrychiolwyr cyrff o fewn awdurdodaeth, yn unol â'r gweithdrefnau a'r safonau gweithredol a bennir gan yr Ombwdsmon.

Cyfrifoldebau (Parhau)

- ❑ Diweddarau'r system rheoli achosion yn ôl yr angen.
- ❑ Dilyn y newyddion o ran datblygiadau cyfredol yn y gyfraith ac arferion cyfredol sy'n briodol i Awdurdodaeth yr Ombwdsmon.
- ❑ Cynorthwyo uwch gydweithwyr ag unrhyw ddyletswyddau eraill gan gynnwys cynrychioli'r Ombwdsmon mewn gwrandawiadau cyfreithiol neu yn ystod cyfarfodydd â chyrff allanol y gall uwch gydweithiwr eu dyrannu ichi o bryd i'w gilydd.
- ❑ Cyfrannu'n ymarferol i ddatblygu a gwella gweithdrefnau, polisiau a chynlluniau'r swyddfa.
- ❑ Dilyn holl bolisiau a gweithdrefnau OGCC fel y nodir yn y dogfennau polisi, pecynnau sefydlu, y fewnrwyd ac ati.
- ❑ Cyfrannu at ymrwymiad yr OGCC i arferion da wrth ymdrin â gwybodaeth, drwy gydymffurfio â Deddf Diogelu Data a pholisiau a gweithdrefnau OGCC, yn arbennig o ran unrhyw ddata personol neu ddeunydd cyfrinachol.
- ❑ Cymryd gofal rhesymol o les ac iechyd a diogelwch eich hun ac eraill y gellid cael eu heffeithio gan y gweithredoedd hynny.

Cyfrifoldebau (Parhau)

- ☐ Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill, cymesur â'r sgiliau a'r profiad disgwyledig ar gyfer y rôl hon, a all gael eu dyrannu o bryd i'w gilydd gan reolwr llinell berthnasol.
- ☐ Gweithredu ar draws holl awdurdodaeth gyfredol neu ddyfodol yr Ombwdsmon ac ym mha bynnag dîm gweithredol y mae'r Ombwdsmon yn ystyried yn briodol i gyflawni amcanion y gwasanaeth.
- ☐ Gweithredu yn unol â Gwerthoedd yr Ombwdsmon bob amser.

Gofynion

Gofynion - hanfodol

- ☐ Profiad blaenorol o gyflawni ac arwain ar ymchwiliadau cymhleth
- ☐ Y gallu i gyrchu gwybodaeth gymhleth, gan adnabod materion allweddol mewn achosion anodd yn syth, er mwyn gwneud penderfyniadau rhesymegol ar y dystiolaeth a ddarparwyd
- ☐ Y gallu i gynllunio a blaenoriaethu gwaith yn briodol er mwyn bodloni graddfeydd amser a chynhyrchu swmp mawr o waith
- ☐ Y gallu i ganfod ffeithiau, dadansoddi gwybodaeth, cymryd datganiadau gan dyst, dod i gasgliadau a gwneud argymhellion rhesymol a chadarn
- ☐ Gallu cryf i addasu i newid a llyncu gwybodaeth newydd a newid deddfwriaethol yn gyflym
- ☐ Sgiliau gweinyddol ardderchog
- ☐ Profiad o weithio/gweithredu mewn amgylchedd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer

Gofynion - hanfodol

- ☐ Sgiliau rhyngbersonol ac agwedd ffôn ardderchog
- ☐ Cyfathrebu ysgrifenedig a llafar ardderchog
- ☐ Aelod da o dîm ond gyda'r gallu i weithredu ar ei liwt ei hun.
- ☐ Disgresiwn llwyr a dealltwriaeth o'r angen am gyfrinachedd.
- ☐ Cymhwysedd profedig gyda chyfrifiaduron gan gynnwys Microsoft Office.
- ☐ Profiad o ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol megis systemau cronfa ddata, systemau cofnodi amser, systemau pwrpasol ayyb
- ☐ Profiad o ddarparu gwasanaeth sy'n dilyn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Gofynion – dymunol

- ☐ Gwybodaeth eang a dealltwriaeth o awdurdodaeth yr Ombwdsmon, ac o weithredu deddfwriaeth a gweithdrefnau cwyno berthnasol (neu'r gallu i ennill y ddealltwriaeth hon)
- ☐ Y gallu i weithio drwy'r Gymraeg (yn llafar ac/ neu'n ysgrifenedig)
- ☐ Profiad blaenorol o fewn y sector gyhoeddus
- ☐ Trwydded yrru lawn (glân) ac yn barod i yrru i ymgymryd â'r gwaith/rôl

Sut i Ymgeisio

Ymgeisio am y rôl

I ymgeisio, cwblhewch a dychwelwch y Ffurflen Gais. Gallwch wneud cais yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ni fydd cais yn y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol. Yn y Ffurflen Gais, mae gofyn i chi:

- ☐ Ddarparu eich manylion personol. Llenwch yr adran hon yn gywir [oherwydd mae'r wybodaeth a ddarparwch yma yn ein helpu i gydymffurfio â Deddf Llochesu a Mewnfudo 1996].
- ☐ Rhoi manylion eich hanes cyflogaeth dros y 10 mlynedd diwethaf. Wrth lenwi'r adran hon, sicrhewch eich bod yn cynnwys manylion eich swydd gyfredol neu eich swydd ddiweddaraf, hyd yn oed os ydych yn teimlo nad yw'r swydd yn berthnasol i'r cais cyfredol.
- ☐ Nodi eich sgiliau, eich profiad a'ch cyflawniadau a fydd yn eich helpu, yn eich barn chi, i gyfrannu yn y swydd hon at amcanion yr Ombwdsmon, ynghyd â'r Datganiad Ategol. Sicrhewch nad ydych yn mynd dros y cyfrif geiriau penodol.
- ☐ Darparu manylion y cymwysterau a enillwyd trwy addysg a hyfforddiant, ynghyd ag unrhyw aelodaeth broffesiynol sydd gennych.
- ☐ Darparu manylion dau berson y gellir gofyn iddynt weithredu fel canolwyr proffesiynol/personol. Dylai un o'r rhain fod yn eich cyflogwr presennol neu eich cyflogwr diwethaf.
- ☐ Llenwi'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb. Bydd y ffurflen hon yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac ar wahân i'r ffurflen gais, ac ni chaiff ei defnyddio i asesu eich addasrwydd ar gyfer cyflogaeth.

Ni allwn ystyried ceisiadau hwyr neu anghyflawn. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich cais yn diwallu'r manylion gofynion uchod a'ch bod yn anfon eich cais at yr Ombwdsmon erbyn y dyddiad cau.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd, 05 Medi 2022. Ni ellir ystyried ceisiadau a dderbynnir ar ôl yr amser a'r dyddiad hwnnw, am ba bynnag reswm.

Bydd ymgeiswyr ar y rhestr hir yn cael eu gwahodd i gwblhau prawf seicometrig ar-lein.

Canllawiau ynglŷn â sut i ymgeisio

Bydd y ffurflen gais rydych chi'n ei llenwi a'i chyflwyno yn ffurfio rhan o'r broses ddethol. Felly, sicrhewch eich bod yn cymryd eich amser ac yn llenwi'r ffurflen mor llawn a chywir â phosibl gan ddefnyddio teip neu inc du.

- ☐ Darllenwch y Disgrifiad Swyn a'r Pecyn Recriwtio hwn yn ofalus cyn dechrau llenwi'r Ffurflen Gais. Mae'r holl ddogfennaeth recriwtio, gan gynnwys y Ffurflen Gais, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- ☐ Rhaid i ni gael y ffurflenni cais erbyn y dyddiad cau, fel y'i nodwyd yn yr hysbysiad a'r Pecyn Recriwtio.
- ☐ Mae'r Ffurflen Gais ar gael fel dogfen Microsoft Word. Rydym yn eich annog i lenwi'r fersiwn Word a'i hanfon ynghyd â'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb at recriwtio@ombwdsmon.cymru
- ☐ Dylai ymgeiswyr sy'n anfon eu ceisiadau dros ebost nodi y bydd yr amser derbyn yn cael ei bennu gan weinydd yr Ombwdsmon. Dylai ymgeiswyr sy'n ffafrio cyflwyno eu Ffurflen Gais a'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb trwy'r post wneud hynny drwy eu hanfon at y cyfeiriad post a nodir ar y dudalen nesaf. Cofiwch, nid yw post dosbarth cyntaf yn sicrhau post y diwrnod nesaf. Ni fyddwn yn derbyn unrhyw gais lle gofynnir i ni dalu diffyg mewn postio.
- ☐ Rhaid i chi lenwi pob rhan o'r ffurflen. Gall methu â gwneud hynny arwain at wrthod eich cais.
- ☐ Llenwch y Ffurflen Monitro Cydraddoldeb. Ni chaiff manylion y ffurflen hon eu cynnwys fel rhan o'r broses ddethol.
- ☐ Rydym yn argymhell eich bod yn cadw copi o'ch ffurflen wedi'i chwblhau a'r disgrifiad swydd ar gyfer eich cofnodion.

Cyflwyno eich cais

Rydym yn ffafrio ceisiadau electronig. Anfonwch eich cais i'r cyfeiriad ebost canlynol cyn y dyddiad cau:
recriwtio@ombwdsmon.cymru

Fel arall, gallwch argraffu eich CV a llythyr eglurhaol a'u hanfon at:

Recriwtio
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Sicrhewch eich bod yn atodi'r canlynol:

- Ffurflen Gais wedi'i chwblhau
- Ffurflen Monitro Cydraddoldeb

Ar gyfer ymholiadau anffurfiol am y rôl(au), cysylltwch â Recriwtio ar 01656 644214 neu anfonwch ebost at
recriwtio@ombwdsmon.cymru

Y Broses

Recruiwtio a Dethol

Y Broses Recriwtio a Dethol

Bydd y panel dethol yn ystyried pob cais cyflawn ynghyd â chanlyniadau'r prawf dawn ar-lein a fydd yn cael ei anfon at ymgeiswyr ar ôl derbyn ffurflen gais wedi'i chwblhau. Bydd y panel yn ystyried y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad perthnasol fel y dangoswyd yn eich cais. Felly, mae'r wybodaeth a ddarparwch yn hanfodol ar gyfer penderfynu a fyddwch yn cael eich rhoi ar y rhestr fer er mwyn ystyried ymhellach.

Gofynion arbennig

Os oes gennych unrhyw ofynion arbennig oherwydd, er enghraifft, anabledd, cysylltwch â Recriwtio a fydd yn falch o'ch cynorthwyo. Gallwch wneud hynny drwy ffonio 01656 644214 neu ebostio recriwtio@ombwdsmon.cymru.

Fel Cyflogwr sy'n ymroddedig i'r cynllun Hyderus o ran Anabledd, bydd pob ymgeisydd sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ac sy'n anabl yn cael eu rhoi ar y rhestr fer.

Ieithoedd i'w defnyddio yn y cam asesu a chyfweld

Bydd yr iaith (ieithoedd) (Cymraeg / Saesneg) a ddefnyddir wrth asesu a chyfweld yn dibynnu ar ofynion y swydd a dewisiadau'r ymgeiswyr.

Rôl

Penodi

Cyn penodi:

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus brofi ei fod yn gymwys i weithio yn y DU; cwblhau Holiadur Iechyd, a darparu gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw euogfarnau troseddol anhreuliedig.

Bydd angen i OGCC dderbyn tystlythyrau addas ar gyfer eich penodi i'r rôl.

Amserlen

Mae'r amserlen yr ydym yn gweithio iddi wedi'i chrynhai isod. Os byddwch yn llwyddiannus yn ystod y cam sifftio cychwynnol, bydd disgwyl i chi sicrhau eich bod ar gael ar ddyddiadau'r cyfweiliad. Mae posibl na fyddwn yn ystyried ymgeiswyr nad ydynt ar gael i ddod i'r cyfweiliad ar y dyddiad a gynigir ar gyfer y rôl hon.

Dyddiad cau: Hanner dydd, Dydd Llun 5 Medi 2022

Diogelu Data

Hysbysiad Preifatrwydd

Mae ein hysbysiad preifatrwyddyn egluro'r ffordd y bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol (neu wybodaeth bersonol yr unigolyn y byddwch yn gweithredu ar ei ran). Mae gofynion yr hysbysiad preifatrwydd wedi'u nodi yn [Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data](#) a'r [Ddeddf Diogelu Data 2018](#).



OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
